ATODLEN 1 Rheoliad 3(1)

# Ffurflen gais am drwydded triniaeth arbennig

*Nodwch enw a chyfeiriad yr awdurdod lleol perthnasol a'i logo*

**Cais am drwydded triniaeth arbennig o dan Ran 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017**

DARLLENWCH Y CYFARWYDDIADAU HYN A'R NODIADAU CYFARWYDDYD ATEGOL YN GYNTAF

**Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llawysgrifen, a fyddech cystal ag ysgrifennu'n glir gan ddefnyddio priflythrennau ac inc. Defnyddiwch ddalenni ychwanegol os oes angen (wedi'u marcio â'r pennawd "Dalen arall - cais am drwydded triniaeth arbennig" a nodwch rif y cwestiwn perthnasol ac enw a chyfeiriad yr ymgeisydd). Mae'n bosibl y dymunwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau er gwybodaeth.**

**Enw'r awdurdod lleol perthnasol sy'n cyflwyno'r dystysgrif** (gweler Nodyn Cyfarwyddyd 1):

…………………………………………………………………………………………….

**Rhan 1 - Manylion yr ymgeisydd**

*Ticiwch lle bo'n briodol*

**1.1 Pa fath o drwydded triniaeth arbennig y mae eich cais yn ymwneud â hi?**

Dros dro (dim mwy na 7 diwrnod) ☐ 3 blynedd ☐

***Os ydych yn gwneud cais am drwydded dros dro, nodwch pam mae angen trwydded triniaeth arbennig arnoch (er enghraifft, rhowch fanylion am arddangosfa, adloniant neu ddigwyddiad):***

………………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………………..

……………………………………………………………………………………..………………………………………..

**Pryd ydych chi am i'r drwydded triniaeth arbennig ddechrau?**

Cyn gynted â phosibl ☐

Neu

Dyddiadau penodol ☐ *[Er enghraifft, nodwch y dyddiadau yr ydych yn dymuno i'r drwydded triniaeth arbennig eu cwmpasu; yn achos cais am drwydded dros dro, rhaid i chi nodi'r dyddiadau pryd y bydd angen y drwydded arnoch.]*

…………………………  tan  ……………………………..

**Rhan 2 – Manylion yr ymgeisydd** (llenwch fel y bo'n berthnasol)

*Ticiwch lle bo'n briodol*

**2.1 Teitl:** Mr ☐ Mrs☐ Miss ☐ Ms☐ Dr☐ Arall ☐ (nodwch) …………………………..

**2.2 Cyfenw: ……………………………………………….**

**2.3 Enw(au) cyntaf: ………………………………………………**

**2.4 Enwau eraill:** .......................................................

*[Er enghraifft, enw masnachu, enw arall neu ffugenw.]*

**2.5 Enw masnachol arfaethedig yr ymgeisydd:** ……………………………….

**2.6 Rhif ffôn cyswllt:** ……………………………………………

**2.7 Rhif ffôn cyswllt amgen (opsiynol):** ……………………………………….

**2.8 Cyfeiriad e-bost (os yw'n berthnasol):** ……………………………………………………………………….

**2.9. Dyddiad Geni:** ……………………………………….

**2.10 Cyfeiriad preswyl arferol yr ymgeisydd:**

…………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………. Côd Post: …………………………………….

**2.11 Cyfeiriad busnes yr ymgeisydd (os yw'n wahanol):**

…………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………. Côd Post: …………………………………….

**2.12 Ticiwch y datganiad canlynol sy'n berthnasol *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 2)*:**

Rwy'n gymwys i gael tystysgrif datgeliad sylfaenol a roddir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ☐

Nid wyf yn gymwys i gael tystysgrif datgeliad sylfaenol ac felly rwyf wedi cael tystysgrif cofnod troseddol dramor ☐

Rwy'n gymwys i gael tystysgrif datgeliad sylfaenol a roddir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a thystysgrif cofnod troseddol dramor ☐

## Rhan 3 – Natur y driniaeth/triniaethau arbennig a roddir

*Ticiwch lle bo'n briodol*

**3.1 Nodwch y gweithdrefnau arbennig y byddwch yn eu cynnal:**

**Aciwbigo** ☐

**Tyllu'r Corff** ☐

**Electrolysis** ☐

**Tatŵio** ☐

**3.2 Os yw'n berthnasol, rhowch ragor o fanylion am y dulliau/offer a ddefnyddir i gynnal y driniaeth arbennig [***Er enghraifft, nodwyddo sych, microlafnu, nanolafnu, colur lled-barhaol ac ati.]***:**

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

**3.3 A ydych yn cynnal triniaethau arbennig ar rannau personol o'r corff?** ***Os ateboch "Ydw", rhowch ragor o fanylion (gweler Nodyn Cyfarwyddyd 3):***

Ydw ☐ Nac ydw ☐

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

**3.4 A ydych yn gwneud unrhyw weithgareddau eraill fel rhan o'r busnes (er enghraifft, gweithgareddau nad ydynt yn driniaethau arbennig)?** ***(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 4)***

Ydw ☐ Nac ydw ☐

**Os ateboch 'Ydw', nodwch y gweithgareddau eraill hynny:**

……………………………………………………………………………………………………

**3.5 Nodwch eich statws gwaith mewn perthynas â chynnal triniaethau arbennig** (ticiwch bob un sy'n berthnasol) ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 5)*:**

Rwy'n gweithio ar safle sefydlog ☐

Rwy'n gweithio ar sail deithiol ☐

Rwy'n gweithio ar sail beripatetig ☐

Rwy'n gweithio ar sail dros dro ☐

Rwy'n berchen ar fusnes ac yn gweithio yn y busnes hwnnw ☐

Rwy'n weithiwr mewn busnes ☐

Rwy'n hunangyflogedig ☐

Rwy'n rheolwr busnes ☐

Rwy'n rhentu ystafell/cadair mewn mangre neu gerbyd cymeradwy ond nid wyf yn un o weithwyr y busnes hwnnw ☐

Arall (nodwch) ☐ ………………………………………………………………….

**3.5 Cyfeiriad y wefan a/neu fanylion unrhyw lwyfannau cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus ar gyfer y busnes (os yw'n berthnasol):**

……………………………………………………………………………….

**3.7 Rhowch fanylion yr holl fangreoedd a/neu gerbydau cymeradwy lle bwriedir cynnal triniaeth arbennig ac a nodir ar eich trwydded triniaeth arbennig *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 6):***

……………………………………,……………………………………..

…………………………………………………………………………….

…………………………………………………………………………….

…………………………………………………………………………….

**3.8 Lle bo hynny'n bosibl, darparwch rif(au) y dystysgrif gymeradwyo ar gyfer pob mangre neu gerbyd cymeradwy *(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 7)*:**

……………………………………,……………………………………..

……………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………

**3.9 O blith y mangreoedd a/neu'r cerbydau cymeradwy yr ydych wedi'u nodi uchod ac a fydd yn cael eu rhestru ar eich trwydded triniaeth arbennig, pa fangre a/neu gerbyd cymeradwy y byddwch yn ei ddefnyddio wrth wneud y rhan fwyaf o'ch gwaith?**

……………………………………,……………………………………..

……………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………

**Rhan 4 – Euogfarnau am droseddau perthnasol**

*Ticiwch lle bo'n briodol*

**4.1 A oes gennych euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol?** ***(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 8)***

Oes ☐ Nac oes ☐

**4.2 Os ateboch 'Oes', rhowch y wybodaeth ganlynol:**

**Y Drosedd:** ………………………………………………

**Dyddiad y gollfarn:** ……………………………………

**Llys:** ……………………………………….

**Cosb/dedfryd:** ……………………………………….

**Hyd y ddedfryd (os yw'n berthnasol): …………………………………**

*[Lle mae mwy nag un euogfarn, defnyddiwch ddalen ychwanegol sydd wedi'i nodi'n glir â'r pennawd "Euogfarnau am droseddau perthnasol". Dylai'r ddalen gynnwys yr holl wybodaeth y gofynnir amdani yn 4.2.]*

**Rhan 5 – Amrywiol** (llenwch fel y bo'n berthnasol)

*Ticiwch lle bo'n briodol*

**5.1 A gyflwynwyd hysbysiad i chi o dan adran 61(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (dynodi person i gael trwydded triniaeth arbennig)?**

Do ☐ Naddo ☐

**Os ateboch 'Do', rhowch fanylion** *[Er enghraifft, enw'r awdurdod lleol sy'n dynodi, dyddiad rhoi'r hysbysiad a rhesymau'r awdurdod lleol dros y dynodiad.]***:**

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

**5.2 A ydych wedi gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig o'r blaen?** (Ticiwch bob ateb perthnasol)

Nac ydw ☐ Ydw – cais am drwydded wedi'i ganiatáu ☐ Ydw – cais i amrywio trwydded wedi'i ganiatáu ☐

Ydw – cais i adnewyddu trwydded wedi'i ganiatáu ☐

Ydw – cais (am drwydded, i amrywio a/neu i adnewyddu) wedi'i ganiatáu a'r drwydded wedi'i dirymu ☐

Ydw – cais (am drwydded, i amrywio a/neu i adnewyddu) wedi'i wrthod ☐

**Os ateboch 'Ydw' i unrhyw un o'r uchod, rhowch ragor o fanylion** *[Er enghraifft, enw'r awdurdod lleol perthnasol a rhif unrhyw drwydded, y rhesymau pam y gwrthodwyd cais, y rhesymau pam y dirymwyd y drwydded.]**(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 9)***:**

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

**5.3 A oes gennych dystysgrif ar gyfer mangre a/neu gerbyd cymeradwy ar gyfer cynnal triniaeth arbennig?**

Oes ☐ Nac oes ☐ Cais yn aros penderfyniad ☐

**Os ateboch 'Oes', rhowch rif y dystysgrif gymeradwyo** ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 7):***

……………………………………………………….

**Os oes cais yn aros am benderfyniad, nodwch y dyddiad y cafodd y cais ei wneud:**

…………………………………………….

**5.4 Cadarnhewch pa iaith yr hoffech ei defnyddio wrth ymwneud â'r awdurdod lleol ynghylch eich cais:**

Cymraeg ☐ Saesneg ☐

**5.5 Nodwch unrhyw wybodaeth arall yr ydych yn ei hystyried yn berthnasol i'ch cais** ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 10):***

…………………………………………………………………………………………………………………….

…………………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………………

**Rhan 6 - Datganiad a Rhestr Wirio** (cwblhewch/ticiwch os gwelwch yn dda)

**Perthnasol i bob ymgeisydd**

**Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n deall ei bod yn drosedd o dan adran 82(7) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i roi gwybodaeth y gwn sy'n anwir neu'n gamarweiniol yn y cais hwn neu mewn perthynas ag ef, neu os wyf yn ymddwyn mewn modd anghyfrifol o ran a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.**

**Rwy'n deall y gallai rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol (boed yn fwriadol neu mewn modd anghyfrifol) arwain at ddirymu fy nhystysgrif gymeradwyo.**

**Rwy'n deall, os byddaf yn methu â datgelu trosedd berthnasol, neu ddeunydd penodol mewn perthynas â hi, y gallai hyn arwain at ddirymu fy nhrwydded triniaeth arbennig.**

☐

**Rwyf hefyd yn cadarnhau'r canlynol:**

☐***Rwy'n ymwybodol o'm rhwymedigaethau i gael yswiriant dilys mewn perthynas â chynnal triniaethau arbennig (a fydd yn ffurfio rhan o'r amodau trwyddedu gorfodol a fydd yn gysylltiedig â'm trwydded) (gweler Nodyn Cyfarwyddyd 11),***

☐**Rwyf wedi darllen a deall yr amodau trwyddedu gorfodol a fydd yn gysylltiedig â'm trwydded, ac**

☐**Rwy'n deall goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r amodau trwyddedu gorfodol hynny.** ***(Gweler Nodyn Cyfarwyddyd 12)***

**Rhestr wirio:**

- **Y ffi ar gyfer y cais wedi'i thalu/ei hamgáu** ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 13)*** ☐
- **Y ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn a'i llofnodi** ***(gweler Nodyn Cyfarwyddyd 14)*** ☐

- **Tystiolaeth o ddyfarniad Lefel 2 rheoleiddiedig wedi'i amgáu** (gweler Nodyn Cyfarwyddyd 15) ☐
- **Tystiolaeth o dystysgrif datgeliad sylfaenol/tystysgrif cofnod troseddol tramor wedi'i hamgáu (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 2*)** ☐
- **Copïau o'r dogfennau adnabod wedi'u hamgáu (gweler Nodyn Cyfarwyddyd 16)** ☐
- **Llun lliw diweddar o'r ymgeisydd wedi'i amgáu (*gweler Nodyn Cyfarwyddyd 17*)** ☐
- **Rwy'n deall os na chydymffurfir â'r gofynion uchod y gellir gwrthod y cais** ☐

## Rhan 7 – Llofnod

**Llofnod yr ymgeisydd (deiliad arfaethedig y drwydded triniaeth arbennig)**

**Llofnod:** …………………………………………….

**Printiwch yr enw: ……………………………………..…….**

**Dyddiad:** ……………………………………...................

*Yn achos cais sydd i'w gyflwyno ar ffurf electronig, dylid cynhyrchu'r llofnod yn electronig a dylai fod yn gopi o lofnod ysgrifenedig y person.*

## Nodiadau Cyfarwyddyd

**Nodyn 1: Enw'r Awdurdod Lleol perthnasol sy'n rhoi'r drwydded**

Wrth wneud cais am drwydded triniaeth arbennig—

(a) os yw'r ymgeisydd yn credu bod y driniaeth arbennig yn debygol o gael ei gwneud gan yr ymgeisydd yn ardal un awdurdod lleol yn unig, dylid gwneud cais i'r awdurdod lleol hwnnw;

(b) os yw'r ymgeisydd yn credu bod y driniaeth arbennig yn debygol o gael ei gwneud gan yr ymgeisydd yn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol, dylid gwneud cais i un o'r awdurdodau lleol hynny.

**Nodyn 2: Cymhwysedd ar gyfer tystysgrif datgeliad sylfaenol a/neu dystysgrif cofnod troseddol dramor**

Mae'n rhaid i ymgeisydd gyflwyno gyda'r ffurflen gais hon:

(a) tystysgrif datgeliad sylfaenol a roddwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a/neu

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

(b) tystysgrif cofnod troseddol tramor, os yw'n berthnasol.

Ni ddylai unrhyw dystysgrif fod yn hŷn na 3 mis (o'r dyddiad cyflwyno).

Lle bo'n bosibl, darparwch gopi electronig o'ch tystysgrif datgeliad sylfaenol. Wrth wneud hynny, rydych yn rhoi caniatâd i rannu'r canlyniad yn electronig â'r awdurdod lleol yr ydych yn gwneud cais iddo.

Mae'n rhaid i ymgeisydd nad yw'n gymwys i gael tystysgrif datgeliad sylfaenol gael tystysgrif cofnod troseddol dramor. Mae'r broses ymgeisio ar gyfer gwiriadau cofnodion troseddol ar gyfer ymgeisydd o dramor yn amrywio o wlad i wlad. Gall fod angen i ymgeisydd wneud cais yn y wlad neu i'r llysgenhadaeth berthnasol yn y DU. Gweler https://www.gov.uk/government/publications/criminal-records-checks-for-overseas-applicants i gael rhagor o wybodaeth.

Ni fydd tystysgrif datgeliad sylfaenol yn cwmpasu'r amser y mae ymgeisydd wedi byw y tu allan i'r DU. Os yw ymgeisydd yn gymwys i gael tystysgrif datgeliad sylfaenol ond ei fod wedi treulio mwy na 6 mis yn byw y tu allan i'r DU, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno tystysgrif cofnod troseddol dramor o'r wlad/gwledydd sy'n cwmpasu'r cyfnod y treuliodd yr ymgeisydd yn byw dramor.

**Nodyn 3: Cynnal triniaeth arbennig ar ran bersonol o'r corff**

Gweler adran 96(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 sy'n dynodi beth yw rhan bersonol o'r corff.

**Nodyn 4: Cynnal gweithgareddau eraill fel rhan o'r busnes**

Gall ymgeisydd gynnwys manylion am weithgareddau eraill y mae'r ymgeisydd yn eu cynnal fel rhan o'r busnes ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn driniaethau arbennig. Er enghraifft, gweithgareddau fel triniaethau harddwch, trin gwallt, manwerthu ac ati.

**Nodyn 5: Statws gwaith mewn perthynas â chynnal triniaethau arbennig**

Cynghorir ymgeiswyr i edrych ar y canllawiau anstatudol os ydynt yn ansicr ynghylch pa "sail" y maent yn cynnal triniaethau arbennig. Er enghraifft, bydd ymgeisydd yn rhoi triniaeth arbennig ar sail "symudol" os yw'r driniaeth arbennig yn cael ei chynnal mewn cerbyd. Gweler hefyd adran 94 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i gael rhagor o wybodaeth.

**Nodyn 6: Manylion safleoedd neu gerbyd cymeradwy**

Ystyr "mangre neu gerbyd cymeradwy" yw mangre neu gerbyd a gymeradwywyd o dan adran 70(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, mewn perthynas â thriniaeth arbennig, gan yr awdurdod lleol.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr—

(a) yn achos trwydded sy'n awdurdodi cynnal triniaeth arbennig mewn mangre, nodwch gyfeiriad pob un o'r fangreoedd yr awdurdodir cynnal triniaeth arbennig gan y drwydded triniaeth arbennig;

(b) yn achos trwydded sy'n awdurdodi cynnal triniaeth arbennig mewn cerbyd, nodwch rif cofrestru'r cerbyd;

(c) yn achos trwydded sy'n awdurdodi cynnal triniaeth arbennig mewn cerbyd nad oes ganddo rif cofrestru, rhowch pa bynnag fanylion adnabod y cerbyd y mae'r awdurdod lleol o'r farn eu bod yn briodol.

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Nodyn 7: Rhif y dystysgrif gymeradwyo**

Ystyr "rhif y dystysgrif gymeradwyo" yw'r cyfeirnod a roddir gan yr awdurdod lleol i'r dystysgrif gymeradwyo sy'n unigryw i'r dystysgrif honno ac a nodir ynddi.

**Nodyn 8: Euogfarnau am droseddau perthnasol**

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgelu euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau perthnasol. Mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn drosedd berthnasol wedi'i nodi yn adran 66 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. Bydd tystysgrif datgeliad sylfaenol yn dangos euogfarnau heb eu disbyddu a rhybuddiadau amodol ymgeisydd. Dylai ymgeiswyr gael cyngor cyfreithiol annibynnol os nad ydynt yn siŵr a yw'n ofynnol iddynt ddatgelu euogfarn am drosedd berthnasol ai peidio. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gall awdurdod lleol ddirymu trwydded triniaeth arbennig os darperir gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn perthynas â chollfarnau ymgeisydd am droseddau perthnasol (gweler adran 68 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017).

**Nodyn 9: Rhif y drwydded**

Ystyr "rhif y drwydded" yw'r rhif a roddir gan yr awdurdod lleol i'r drwydded triniaeth arbennig sy'n unigryw i'r drwydded honno ac a nodir ynddi.

**Nodyn 10: Darparu gwybodaeth berthnasol i gyd-fynd â'r ffurflen gais**

Gall ymgeisydd roi unrhyw wybodaeth y mae'n ystyried sy'n berthnasol i'w gais. Er enghraifft, gallai hyn fod yn wybodaeth bellach (gan gynnwys unrhyw ffactorau lliniaru) mewn perthynas ag unrhyw gollfarn sydd heb ei disbyddu am drosedd berthnasol y mae'r ymgeisydd wedi'i datgan ar y ffurflen gais hon.

**Nodyn 11: Yswiriant**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr wneud datganiad y byddant yn cael yswiriant dilys mewn perthynas â chynnal triniaethau arbennig a bydd y gofyniad hwnnw'n ffurfio rhan o'r amodau trwyddedu gorfodol a fydd ynghlwm wrth y drwydded triniaeth arbennig. Ystyr yswiriant yw polisi yswiriant dilys a roddwyd gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio'r ymgeisydd mewn perthynas â rhwymedigaethau, mewn perthynas â salwch, haint, anaf ac effeithiau niweidiol eraill nad ydynt yn heintus (gan gynnwys adweithiau alergaidd), sy'n deillio o gynnal triniaeth arbennig.

**Nodyn 12: Methu â chydymffurfio ag amodau trwyddedu gorfodol**

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gellir dirymu trwydded triniaeth arbennig os yw awdurdod lleol yn fodlon bod deiliad y drwydded wedi methu â chydymffurfio ag amod trwyddedu gorfodol perthnasol, a bod y diffyg cydymffurfiaeth yn peri risg sylweddol o niwed i iechyd pobl neu y gallai hynny beri risg sylweddol o niwed i iechyd pobl. Gweler adran 68 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 i gael rhagor o fanylion.

**Nodyn 13: Talu'r ffi ar gyfer y cais**

Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol sy'n cyflwyno'r dystysgrif i gael rhagor o wybodaeth am y ffi sy'n ddyledus ar gyfer gwneud cais a sut y dylid talu'r ffi hwnnw. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan yr awdurdod lleol.

**Nodyn 14: Cyflwyno'r cais**

Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol sy'n cyflwyno'r dystysgrif i gael rhagor o wybodaeth am sut y dylid cyflwyno cais am drwydded triniaeth arbennig. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon ar wefan yr awdurdod lleol.

**Nodyn 15: Tystiolaeth o ddyfarniad Lefel 2 rheoleiddiedig**

Mae'n rhaid i ymgeiswyr feddu ar Ddyfarniad Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig (dyfarniad sy'n cael ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru). Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r dyfarniad hwn trwy amgáu'r dystysgrif wreiddiol neu gopi o'r dystysgrif. Os darperir copi o'r dystysgrif, rhaid i'r dystysgrif wreiddiol fod ar gael ar gais i'r awdurdod lleol sy'n cyflwyno'r dystysgrif.

**Nodyn 16: Dogfennau adnabod**

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd ddarparu prawf o'i enw llawn a'i ddyddiad geni. Caniateir y mathau canlynol o brawf adnabod ffotograffig:

- Pasbort neu drwydded yrru ddilys,
- Os nad oes gan yr ymgeisydd yr un o'r uchod, ystyrir bod y cardiau adnabod ffotograffig canlynol yn addas; Trwydded breswylio fiometrig; Cerdyn Adnabod Lluoedd Ei Fawrhydi; Cerdyn Adnabod Gwladolyn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE); Cerdyn Pasbort Gwyddelig; Fisa neu drwydded waith.

Gall ymgeiswyr ddarparu copïau o'u dogfennau adnabod i gyd-fynd â'r ffurflen gais ond mae'n rhaid sicrhau bod y prawf adnabod gwreiddiol ar gael ar gais i'r awdurdod lleol sy'n rhoi'r drwydded.

**Nodyn 17: Llun lliw diweddar**

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno llun lliw diweddar o'i hun. Rhaid i'r ffotograff:

- bod yr un maint a'r un arddull â llun pasbort yn y DU,
- cael ei dynnu o flaen cefndir golau fel bod nodweddion yr ymgeisydd yn glir ac yn cyferbynnu â'r cefndir,
- dangos wyneb yr ymgeisydd yn glir, ac mae'n rhaid iddo gael mynegiant niwtral a pheidio â gwisgo unrhyw beth sy'n gorchuddio'i ben neu ei wallt (ac eithrio am resymau crefyddol neu feddygol),
- bod yn debygrwydd da i'r ymgeisydd.